

Addoli

Darlleniad: Salm 96

‘Deuwn, canwn yn llawen i’r Arglwydd, rhown wrogaeth i graig ein hiachawdwriaeth. Down i’w bresenoldeb â diolch, rhown wrogaeth iddo â chaneuon mawl. Oherwydd Duw mawr yw’r Arglwydd, a brenin mawr goruwch yr holl dduwiau.’

Diolchwn i ti, ein Tad, am y gallu i addoli, a rhyfeddwn at ba mor barod wyt ti i dderbyn ein haddoliad. Cofiwn mai creaduriaid syrthiedig ydym, ac eto gwyddom nad oes dim yn fwy hyfryd gennyt ti na sŵn moliant dy bobl. Rho yn ein calonnau ni felly yr awydd i’th ganmol, ac agor ein meddyliau i dderbyn dy wirionedd.

O! Dduw, rho inni’r doethineb yn awr i ymatal rhag ceisio dy rwydo mewn geiriau, ymaflyd ynot â’n meddwl, caethiwo dy ryfeddod â’n syniadau’n hunain. Yn hytrach, gad inni syllu arnat, a gad i’r syllu hwnnw droi’n adnabyddiaeth, a’r adnabyddiaeth yn fawl. Gwared ni rhag llefaru geiriau gwag a bodloni ar hen ddelweddau, arbed ni rhag llygru dy burdeb â’n pechod, a rho inni’r wefr honno a deimla’r sawl a ddaw i undeb bywiol â thydi.

A ninnau’n dyfod atat fel y daw plentyn at dad sy’n ei garu, gwna ni’n ymwybodol o’th gariad anhraethol tuag atom. Cariad a ddatguddiwyd inni yn dy Fab, Iesu, a chariad y dylem ninnau ei adlewyrchu yn ein hymwneud â’n gilydd. Gwyrth fwyaf ein hanes ni yw i’r fath gariad gael ei dywallt dros y fath rai. Boed ein haddoliad felly yn ddim llai nag ymateb byw i’r cariad hwnnw. Boed inni bob amser ymroi i’w adlewyrchu, a boed inni sylweddoli nad yw sôn am garu’n ddigon, na ellir moli heb weithio, ac na ellir addoli’n iawn heb dorri’r groes sydd ar lwybr bywyd. Ein Duw, cynnal ni ac arwain ni, boed dy Air yn gysur ac yn gerydd inni, a thu ôl i’r dirgelwch sy’n dy guddio oddi wrth dy blant gad i ni ganfod gwedd yr Arglwydd Iesu.

Gweddiwn, Arglwydd, dros y rhai hynny nad ydynt heddiw'n gallu addoli. Rhai am fod eu calon yn drwm a'u byd yn dywyll, rhai am na fu iddynt erioed gael eu hannog i blygu glin a chanu emyn, rhai am fod casineb ac ofn yn llenwi eu calon. O! Dad, gwared hwy a ninnau oddi wrth bob trychineb a thrallod, pob rhagfarn ac anwybodaeth, pob pechod a bai. A hynny, nid am fod ynom ni haeddiant, ond er mwyn dy enw a'th ogoniant di dy hun, ac er mwyn i'r môr o fawl ehangu a gorchuddio'r ddaear.

Ac o gofio'r ddaear, O! Arglwydd, cyflwynwn i'th sylw di y rhai sydd heddiw'n glaf ac mewn poen, yn bryderus ac mewn trallod, yn wynebu glyn cysgod angau, a heb wybod i ba le i droi. Boed i'th dangnefedd di fod arnynt a'th ysbryd yn eu plith, ac os yw'n bosibl i ti ein defnyddio ninnau i helpu'r llesg a'r gwan, boed felly. Caniatâ i'n mawl orlenwi'n bywyd, ac i'n haddoliad fynd yn gymysg â'n gwaith wrth inni ennill y byd i ti. Amen.

Elwyn Richards